

# **YMCHWILIAD I WEITHREDOEDD A PHENDERFYNIADAU PRIF WEINIDOG CYMRU MEWN PERTHYNAS AG YMADAWIAD CARL SARGEANT O'I SWYDD FEL YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYMUNEDAU A PHLANT**

## **Y PROTOCOL GWEITHREDOL**

### **Yr Ymchwiliad (paragraffau 1-3)**

1. Mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Ymchwiliad gyda'r Cylch Gorchwyl canlynol:

Cynnal ymchwiliad i weithredoedd a phenderfyniadau Prif Weinidog Cymru mewn perthynas ag ymadawriad Carl Sargeant o'i swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ac wedi hynny.

2. Penodwyd Paul Bowen CF i weithredu fel Ymchwilydd gyda'r nod o gynnal yr Ymchwiliad yn unol â'r protocol hwn ac yn unol â thelerau ac amodau'r penodiad (gweler yr Atodiad).

3. Mae'r Ymchwiliad yn broses y bwriedir iddi weithredu'r ymrwymiad cyhoeddus a roddwyd gan y Prif Weinidog ar 10 Tachwedd 2017 ar y telerau hyn:-

### ***Dywedodd llefarydd ar ran y Prif Weinidog,***

*"Ymhellach i sylwadau'r Prif Weinidog ddoe am yr angen i gael amchwiliad annibynnol ar ei weithredoedd a'i benderfyniadau mewn perthynas â Carl Sargeant, mae'n cytuno y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol, ac y byddai'n briodol gofyn i uwch CF i arwain y gwaith hwnnw. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd ar wahân i'w swydd, y mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ddechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ac i gysylltu â'r teulu i drafod y cylch gorchwyl ac enw'r uwch CF. Yn ôl yr hyn a ddeallwn ni ddylai ymchwiliad o'r fath gael ei gynnal cyn canlyniad Cwest gan y Crwner - ond byddwn yn gofyn am gyngor pellach ar y mater hwn."*

### **Cylch Gorchwyl (paragraff 4)**

4. Mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn dilyn cyflwyniadau gan deulu Carl Sargeant ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Ymchwilydd.

### **Pwerau ac Ariannu (paragraffau 5-6)**

5. Daw'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer yr Ymchwiliad o swyddogaethau'r Prif Weinidog a nodir yn adrannau 48 a 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA 2006) a rôl yr Ymchwilydd yw cynnal yr Ymchwiliad yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i'r Protocol Gweithredol hwn yn unig a Thelerau ac Amodau'r Penodiad.

6. Ariennir yr Ymchwiliad yn uniongyrchol o gyllideb Llywodraeth Cymru a gweinyddir y gyllideb hon gan yr Ysgrifenyddiaeth (fel y sefydlwyd o dan baragraff 34). Tîm cyllid

canolog Llywodraeth Cymru yw deiliad y gyllideb at ddibenion rheolaeth ariannol Llywodraeth Cymru yn fewnol.

### **Treuliau a Chostau (paragraff 7)**

7. Bydd yr Ymchwilydd yn sicrhau, wrth gynnal yr Ymchwiliad, fod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei thrin mewn ffordd sy'n sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cadarnhau cytundeb mewn egwyddor i ad-dalu set unigol o gostau cyfreithiol y gallai gweddw Carl Sargeant fynd iddynt (neu, fel arall, y cyfryw aelod o'r teulu ag a enwebir ganddi) i'r graddau ag yr eir iddynt at y dibenion a amlinellir isod. Gall yr Ymchwilydd hefyd ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu gytuno mewn egwyddor i ddyfarnu costau cyfreithiol i bersonau eraill lle yr ystyrir bod hyn yn hanfodol i gynnal yr Ymchwiliad yn effeithiol i'r graddau yr eir iddynt at y dibenion a amlinellir isod. Bydd unrhyw ad-daliad o gostau cyfreithiol wedi ei gyfyngu i ddyfarniadau symiau rhesymol yr eir iddynt mewn perthynas â'r gost o geisio cyngor a chymorth cyfreithiol (nad y cwmpesir gan yswiriant sydd eisoes yn bodoli na threfniadau cynrychiolaeth broffesiynol nac ychwaith lle mae'r person wedi ei ariannu gan arian cyhoeddus), ar yr amod yr eir iddynt yn briodol, mewn perthynas â darparu gwybodaeth i'r Ymchwiliad. Bydd dyfarniadau costau rhesymol yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y Rhestr Gostau.

### **Annibyniaeth Weithredol a llunio Adroddiad (paragraffau 8-11)**

8. Yn ddarostyngedig i'r hyn a sonnir isod, ac i'r Cylch Gorchwyl, bydd yr Ymchwiliad yn gwbl annibynnol. Fel y cyfryw caiff ei gynnal heb ymyrraeth na chyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a/na Llywodraeth Cymru. Mater i'r Ymchwilydd yn gyfan gwbl fydd yr holl ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion.

9. Er mwyn atgyfnerthu annibyniaeth yr Ymchwiliad a sicrhau tryloywder, bydd yr Ymchwilydd, wrth ddod â'r Ymchwiliad i ben, yn llunio adroddiad yn unol â gofynion y Protocol hwn a gaiff ei gyflwyno i'r Cwnsler Cyffredinol i'w gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

10. Bwriedir i'r Ymchwilydd ddechrau'r Ymchwiliad cyn gynted â phosibl a dylai anelu at gwblhau'r Ymchwiliad, unwaith y bydd wedi dechrau'n ffurfiol, o fewn cyfnod o chwe mis. Os bydd yr Ymchwilydd o'r farn na all yr adroddiad gael ei gyflwyno o fewn yr amserlen hon pennir dyddiad diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r adroddiad drwy gytundeb â'r Ysgrifennydd Parhaol. Bydd yr Ymchwiliad yn dechrau'n ffurfiol pan fydd y Cylch Gorchwyl, amodau penodi'r Ymchwilydd, y Cwnsler, y Cyfreithiwr a'r Ysgrifenyddiaeth i'r Ymchwilydd, y Protocol Gweithredol ac unrhyw arferion, polisïau a gweithdrefnau perthnasol sy'n angenrheidiol i weithredu'r Ymchwiliad yn gyfreithlon ac yn effeithiol ar waith.

11. Yn ddarostyngedig i gyflwyno adroddiad erbyn y dyddiad cytûn, bwriedir i'r Ymchwiliad gael ei gynnal gan yr Ymchwilydd mewn modd ac yn unol ag amserlen y bydd yr Ymchwilydd, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau penodi ac i'r Protocol Hwn, yn eu pennu. Yn arbennig, bydd yr Ymchwilydd felly yn pennu'r amserlen a'r modd y gall unigolion neu gyrrff yr ystyrir eu bod yn gallu helpu'r Ymchwiliad gael eu nodi; dogfennaeth y gofynnir amdani gan y cyfryw unigolion neu gyrrff; datganiadau

ysgrifenedig y gofynnir amdanynt gan y cyfryw unigolion neu gyrff; ac unigolion a gaiff eu cyfweld gan yr Ymchwilydd. Os yw'r Ymchwilydd yn ystyried cynnwys yn yr adroddiad feirniadaeth sylweddol o berson, a chred yr Ymchwilydd y dylai'r person hwnnw gael cyfle i wneud cyflwyniad neu gyflwyniad pellach, dylai anfon llythyr rhybudd at y person hwnnw a rhoi cyfle rhesymol iddo ef neu iddi hi ymateb.

### **Cynhyrchu Gwybodaeth a Chyfrinachedd (paragraffau 12-25)**

12. Nid yw'r Ymchwiliad wedi cael ei sefydlu yn unol â Deddf Ymchwiliadau 2005. Ni fydd gan yr Ymchwilydd, o ganlyniad, bwerau i fynnu bod trydydd partïon yn bresennol nac i fynnu eu bod yn cyflwyno dogfennau. Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cymryd camau i sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru yn cydweithredu'n llawn â gwaith yr Ymchwiliad. Bydd yr Ymchwilydd yn hysbysu'r Ysgrifennydd Parhaol cyn gynted â phosibl os na chyflawnir yr ymrwymadau hyn a bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cymryd yr holl gamau adferol sydd o fewn ei phwerau yn brydlon.

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y deunydd perthnasol sydd yn ei meddiant, dan ei gofal neu ei rheolaeth ar gael i'r Ymchwilydd er mwyn galluogi'r Ymchwilydd i symud yr Ymchwiliad yn ei flaen. Bydd deunydd perthnasol at y dibenion hyn yn golygu'r holl gofnodion a gybodaeth perthnasol a gedwir gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg berthnasol ac eithrio gwybodaeth sy'n destun braint broffesiynol gyfreithiol. Rhagwelir, o ystyried y dogfennau a'r wybodaeth a ddaw i law (boed hynny gan Lywodraeth Cymru neu o unrhyw ffynhonnell arall) y gall arwain at yr angen i'r Ymchwilydd weld dogfennau pellach neu'r cyfryw gwybodaeth pellach a gall yr Ymchwilydd wneud ceisiadau ychwanegol yn unol â hynny. Caiff yr holl wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r Ymchwilydd ei chadw gan yr Ymchwilydd ar ran Llywodraeth Cymru.

14. Serch y sail gyfreithiol y cedwir gwybodaeth arni, bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r Ymchwilydd yn destun Cytundeb Trosglwyddo a fydd yn rhestru ac yn cofnodi'r wybodaeth a ddarperir ac a gaiff ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru pan ddaw'r Ymchwiliad i ben ac a fydd yn cadarnhau polisïau Gwybodaeth a Chofnodion Rheoli perthnasol Llywodraeth Cymru y bydd angen eu dilyn. Ar ddechrau'r Ymchwiliad bydd yr Ymchwilydd a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar drefniadau ar gyfer cadw ffeiliau a data electronig a fydd yn cynnwys mesurau i sicrhau bod y data a gedwir at ddibenion yr Ymchwiliad:

- yn cael eu cadw'n ddiogel;
- o dan reolaeth lwyr yr Ymchwilydd;
- ac na all Llywodraeth Cymru eu gweld yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad.

15. Bwriedir i Adroddiad yr Ymchwilydd fod ar gael yn gyhoeddus, yn ddarostyngedig i unrhyw ailolygiadau a all fod yn angenrheidiol i ddiogelu gwybodaeth sensitif (megis, ond nid yn gyfyngedig i, enwau, cyfeiriadau a manylion adnabod unigolion eraill y mae'r Ymchwilydd wedi rhoi anhysbysrwydd iddynt yn unol â pharagraffau 16 i 18) neu er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n effeithio ar gyhoeddi gwybodaeth. Gall personau â buddiant wneud cyflwyniadau i'r Ymchwilydd ond yr Ymchwilydd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â pha ailolygiadau sydd

angen eu gwneud, os o gwbl, yn ddarostyngedig i'r rwymedigaethau a osodir gan y Protocol hwn mewn perthynas â chyfrinachedd neu anhysbysrwydd.

16. Bydd y deunydd a gyflwynir i'r Ymchwilydd neu fel arall a gynhyrchir yn ystod yr Ymchwiliad yn cynnwys gwybodaeth sensitif, gan gynnwys –

- i. Gwybodaeth sy'n nodi neu'n darparu ffordd o adnabod unigolion a wnaeth gwynion ynghylch ymddygiad Carl Sargeant ("yr achwynwyr") p'un a gânt eu darparu'n uniongyrchol gan yr achwynwyr neu gan bersonau eraill;
- ii. Gwybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru, neu a ddarperir i'r Ymchwilydd (yn rhinwedd ei swydd yn unol â swyddogaethau'r Prif Weinidog) ar sail gyfrinachol;
- iii. Gwybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru, neu a ddarperir i'r Ymchwilydd (yn rhinwedd ei swydd yn unol â swyddogaethau'r Prif Weinidog) mewn perthynas â pha unigolion a gaiff eu hadnabod a allai gael hawl gyfreithiol efallai i anhysbysrwydd; a
- iv. Gwybodaeth a ddelir gan y Prif Weinidog mewn perthynas ag ad-drefnu'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017.

17. Mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth o fewn paragraff 16 uchod, rhaid i'r Ymchwilydd sicrhau, tra bydd yn cynnal yr ymchwiliad ac wrth lunio'r adroddiad terfynol, na wneir dim –

- i. A allai adnabod neu ddarparu modd o adnabod achwynydd oni fydd yr achwynydd wedi rhoi ei ganiatad blaenorol i ddatgelu hynny;
- ii. A fydd yn torri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd, oni fydd y person wedi ildio ei hawl i gyfrinachedd;
- iii. A fydd yn torri unrhyw hawl gyfreithiol i anhysbysrwydd, oni fydd y person wedi ildio ei hawl i anhysbysrwydd;
- iv. Yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag ad-drefnu'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017 ac eithrio gwybodaeth sy'n ymwneud â Carl Sargeant.

18. Yn achos unrhyw berson arall, gall yr Ymchwilydd benderfynu y caiff unrhyw gyfeiriad at y person hwnnw yn yr Adroddiad ei roi yn anhysbys, a gall hysbysu'r person hwnnw (ac, i'r graddau fod angen gwneud hynny er mwyn diogelu'r anhysbysrwydd hwnnw, unrhyw bersonau eraill a/neu'r cyfryngau) yn unol â hynny, os bydd yr Ymchwilydd o'r farn bod angen hynny er mwyn cynnal yr Ymchwiliad yn effeithlon ac yn effeithiol,

19. Bwriedir i'r Ymchwiliad hwyluso'r cyfle i unrhyw berson sy'n credu bod ganddo dystiolaeth sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad gyflwyno'r dystiolaeth honno, i'r Ymchwiliad, gan gynnwys drwy gyfrwng tystiolaeth ysgrifenedig a/neu dystiolaeth lafar yn gyfrinachol, yn anhysbys neu ar y cyfryw delerau ac amodau eraill yn ôl cais yr unigolyn hwnnw. Gall yr Ymchwilydd wrthod derbyn neu gall wrthod unrhyw

dystiolaeth a ddarperir ar delerau ac amodau sy'n amhriodol yn ei farn ef neu nad ydynt yn caniatáu iddo dynodi ffynhonnell na dibynadwyedd y ffynhonnell honno.

20. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod unrhyw ddogfen a ddelir ganddi yn cynnwys gwybodaeth sy'n dod o fewn paragraff 16 uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfleu'r ffaith honno i'r Ymchwilydd pan gaiff y wybodaeth ei throsglwyddo. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr Ymchwilydd yn gorfod dilyn y gofynion a gynigir gan baragraff 17 uchod ac, yn enwedig, ni fydd yn datgelu nac yn cyhoeddi'r wybodaeth honno heb ailolygiadau priodol a fydd yn sicrhau y dilynir gofynion paragraff 17 neu (os na fydd y cyfryw ailolygiadau yn ymarferol) ddim o gwbl. Nid yw'r gofyniad hwn yn effeithio ar y gofynion ehangach ar yr Ymchwilydd o dan baragraff 17.

21. Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i baragraff 22 isod. Ni fwriedir i ddogfennau, datganiadau tystion, trawsgrifiadau o dystiolaeth nac unrhyw ddeunydd arall a ddarperir i'r Ymchwilydd gael eu cyhoeddi, heblaw'r hyn sy'n angenrheidiol ym marn yr Ymchwilydd (yn ddarostyngedig i baragraffau 17 ac 20, ac i unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol eraill ar gyhoeddi):

(i) i gyfeirio at ddeunydd o'r fath yn yr Adroddiad;

(ii) i ddarparu deunydd a gyflenwir gan un person neu gorff i berson neu gorff arall, boed hynny at ddibenion cael sylwadau'r derbynydd ar y deunydd hwnnw, er mwyn helpu'r derbynydd i gofio ffeithiau neu am unrhyw reswm arall.

22. Os bydd yr Ymchwilydd ar unrhyw adeg yn ystyried bod angen, er mwyn iddo gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin o gyfiawnder agored a/neu'r hawl mynediad at wybodaeth o dan Erthygl 10 Siarter Hawliau Dynol Ewrop, ddatgelu i'r cyhoedd neu unrhyw adran o'r cyhoedd unrhyw ran o'r deunydd a ddisgrifir ym mharagraff 21:

(i) bydd yr Ymchwilydd yn gyntaf yn gwahodd sylwadau gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru ac unrhyw aelodau o deulu Carl Sargeant sy'n cymryd rhan yn yr Ymchwiliad, ar b'un a ddylid cael datgeliad o'r fath;

(ii) bydd yr Ymchwilydd, os bydd yn penderfynu gwneud unrhyw fath o ddatgeliad, ar ôl cael sylwadau o'r fath, yn rhoi rhybudd o ddau ddiwrnod gwaith clir i'r rhai a enwir yn is-baragraff (i) uchod cyn iddo wneud y datgeliad hwnnw a bydd, wrth roi'r rhybudd hwnnw, yn darparu manylion am y datgeliad y mae'n bwriadu ei wneud a manylion am y personau y mae'n bwriadu gwneud y datgeliad iddynt.

Mae'r Ymchwilydd yn cydnabod:

(a) na ellir gwneud datgeliad a all dorri unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd y mae'r Ymchwilydd yn ymwybodol ohoni;

(b) rhaid iddo sicrhau na wneir datgeliad a all mewn unrhyw ffordd effeithio ar y cwest i farwolaeth Carl Sargeant, a bydd y ffactor hwnnw yn hollbwysig pan fydd yr Ymchwilydd yn penderfynu a ddylid gwneud unrhyw ddatgeliad;

(c) na ellir gwneud datgeliad a all fod yn groes i'r gofynion ym mharagraffau 17 ac 20.

23. Yn ddarostyngedig i baragraffau 17 ac 20, pan fydd yr Ymchwilydd yn darparu deunydd i berson neu gorff o dan baragraff 21 uchod, bydd yr Ymchwilydd yn ei ddarparu o dan amod cyfrinachedd datganedig a bydd y derbynnydd yn addo defnyddio'r deunydd hwnnw at ddibenion yr Ymchwiliad yn unig, heb ei ddatgelu i unrhyw berson arall ac i gydymffurfio â'r cyfryw amodau eraill ag y gall yr Ymchwilydd eu hamodi.

24. Pan ddatgelir gwybodaeth gan yr Ymchwilydd yn unol â pharagraffau 21 neu 22, bydd Llywodraeth Cymru, i raddau'r datgeliad hwnnw, yn ildio unrhyw hawl i gyfrinachedd a roddir fel arall i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru.

25. Yn unol â pharagraff 19 uchod bydd gan yr Ymchwilydd yr hawl i gael gwybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall yn gyfrinachol os bydd yr Ymchwilydd o'r farn bod gwneud hynny er budd i'r Ymchwiliad. Fodd bynnag, disgwylir i'r Ymchwilydd wneud pob ymdrech i gael cytundeb pawb sy'n darparu gwybodaeth gyfrinachol er mwyn caniatáu i'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi, i'r graddau sy'n angenrheidiol ym marn yr Ymchwilydd, yn yr Adroddiad.

### **Natur ymchwiliol yr Ymchwiliad (paragraffau 26-33)**

26. Gall unrhyw berson gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Ymchwiliad yn unol â threfniadau i'w nodi gan yr Ymchwilydd.

27. Bwriedir i'r Ymchwiliad fod yn ymchwiliol ac nid yn wrthwynebol ei natur.

28. Gall yr Ymchwilydd wahodd unrhyw un i roi datganiad tyst at ddibenion yr Ymchwiliad.

29. Gall yr Ymchwilydd wahodd unrhyw un i roi tystiolaeth ar lafar, p'un a yw'r person hwnnw wedi darparu datganiad tyst ai peidio.

30. Bwriedir gwrando ar unrhyw dystiolaeth lafar yn breifat. Caiff y rhai sy'n bresennol pan gymerir tystiolaeth lafar eu cyfyngu i'r Ymchwilydd, y Cwnsler a'r Cyfreithiwr i'r Ymchwiliad, yr Ysgrifenyddiaeth, y tyst a'i gynrychiolydd cyfreithiol/cynrychiolwyr cyfreithiol, ac unrhyw berson arall/personau eraill y bydd yr Ymchwilydd yn penderfynu (a) bod ganddo/ganddynt fudd digonol yn nhestun y dystiolaeth; a (b) y dylai/dylent fod yn bresennol er budd cyfiawnder. Os bydd yr Ymchwilydd yn caniatáu i'r cyfryw berson fod yn bresennol i glywed tyst yn rhoi tystiolaeth, gall wneud hynny ar y cyfryw amodau ag sy'n briodol yn ei farn ef. Gall yr Ymchwilydd wrthod, neu ddirymu'r cyfryw ganiatâd os bydd bod yn bresennol yn peri i dyst dynnu ei ganiatâd i roi tystiolaeth yn ôl. Gall yr Ymchwilydd wrthod neu ddirymu'r cyfryw ganiatâd ar gyfer y dystiolaeth i gyd neu ran ohoni lle bydd angen hyn er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion paragraff 17. Gall unrhyw dyst sy'n

rhoi tystiolaeth i'r Ymchwilydd wrthod ateb unrhyw gwestiwn ym mhresenoldeb y cyfryw bersonau mewn amgylchiadau lle mae'r tyst yn credu y gall yr ateb i'r cwestiwn arwain at beidio â chydymffurfio â gofynion paragraff 17.

31. Bydd gofyn i unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol pan gymerir tystiolaeth lafar yn gyntaf lofnodi ffurflen ymgymeriad cyfrinachedd mewn perthynas â'r modd y cynhelir y sesiwn lle caiff y dystiolaeth ei chymryd a chynnwys y sesiwn honno.

32. Gall unrhyw berson gyflwyno cwestiynau, yn ysgrifenedig i'r Ymchwilydd ymlaen llaw y mae am i'r Ymchwilydd eu gofyn i unrhyw dyst yn ystod y broses o gymryd tystiolaeth lafar. Yr Ymchwilydd a Chwnsler yr Ymchwiliad fydd yn penderfynu a gaiff y cyfryw gwestiynau, a'r amodau arnynt, eu gofyn ai peidio. Lle y caniatawyd i unrhyw berson fod yn bresennol wrth i dystiolaeth lafar gael ei chymryd yn unol â pharagraff 31 gall yr Ymchwilydd ganiatáu i'r cyfryw gwestiynau pellach gael eu gofyn, drwy'r Ymchwilydd neu'r Cwnsler i'r Ymchwiliad, fel y gwêl orau. Ni chaniateir i unrhyw berson ofyn cwestiynau i unrhyw dyst mewn unrhyw ffordd arall, boed yn uniongyrchol neu drwy ei gynrychiolydd cyfreithiol ei hun neu gynrychiolydd cyfreithiol arall.

33. Gall yr Ymchwilydd wahodd a derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig neu lafar ar unrhyw fater gan unrhyw berson neu gorff fel y gwêl orau.

### **Yr Ysgrifenyddiaeth a Chymorth Cyfreithiol (paragraffau 34-37)**

34. Caiff Ysgrifenyddiaeth ei sefydlu, dan arweiniad unigolyn sy'n hollol annibynnol o staff Llywodraeth Cymru, ac nad yw'n aelod nac yn gyn-aelod o staff Llywodraeth Cymru, i roi cymorth gweinyddol i'r Ymchwilydd. Tîm cyllid canolog Llywodraeth Cymru yw deiliad y gyllideb at ddibenion rheolaeth ariannol fewnol Llywodraeth Cymru. Bydd gan yr Ymchwilydd yr hawl i drefnu cymorth cyfreithiol i helpu'r Ymchwilydd. Gall y cyfryw gymorth cyfreithiol fod ar ffurf Cwnsler annibynnol yr Ymchwiliad a Chyfreithiwr annibynnol yr Ymchwiliad.

35. Rhaid i'r Ymchwilydd sicrhau y caiff y gyllideb ei gwario ar gyfer gwasanaethau ac at ddibenion yr Ymchwiliad mewn ffordd sy'n sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, yn unol â gofynion y swyddog cyfrifyddu o fewn Llywodraeth Cymru.

36. Ni fwriedir i'r Ymchwilydd ymrwymo i gontractau yn rhinwedd ei swydd a chaiff unrhyw rwymedigaethau contractiol â thrydydd partïon eu llunio yn enw Llywodraeth Cymru ac yn ddarostyngedig i gytundeb â'r Ysgrifenyddiaeth, gan gynnwys achosion pan fydd yr Ymchwilydd yn gwneud argymhelliad o dan baragraff 43 isod.

37. Bydd gan yr Ysgrifenyddiaeth y cyfryw swyddfa dros dro ag sy'n angenrheidiol ym marn yr Ymchwilydd yn ystod yr Ymchwiliad.

### **Hawlfraint (paragraff 38)**

38. Bydd yr Adroddiad yn destun Hawlfraint y Goron.

## **Cofnodion a Gwybodaeth (paragraffau 39-41)**

### ***Statws Cofnodion Cyhoeddus***

39. Yn ddarostyngedig i unrhyw drefniant amgen y gall yr Ymchwilydd a Llywodraeth Cymru gytuno arno, pan ddaw'r Ymchwiliad i ben, bydd yr Ymchwilydd yn dychwelyd dogfennau i Lywodraeth Cymru yn unol â thelerau'r Cytundeb Trosglwyddo a luniwyd yn unol â pharagraff 14 ac, mewn perthynas â dogfennau eraill a luniwyd gan yr Ymchwiliad, yn penderfynu pa ddogfennau a gynhyrchwyd wrth gynnal yr Ymchwiliad sy'n briodol i'w cadw'n gyhoeddus a throsglwyddo'r dogfennau hynny i Lywodraeth Cymru. Wrth ddethol y dogfennau bydd yr Ymchwilydd yn ystyried y Canllawiau Archif Cenedlaethol a gynhyrchwyd yn 2017 o'r enw: Information Management: Public Inquiries, Independent Investigations etc. Bydd dogfennau a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru fel cofnodion cyhoeddus i'w cadw'n barhaol yn cael eu cadw'n ddiogel ac at ddiben catalogio'r dogfennau a'u hanfon i'r Archifau Cenedlaethol yn unig.

### ***Diogelu Data***

40. Mae'n debygol iawn y bydd yr Ymchwilydd yn prosesu data personol yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad.

41. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn trafod gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth p'un a ddylai'r Ymchwilydd neu Lywodraeth Cymru gael ei ystyried yn rheolwr data neu'n brosesydd data at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018, a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer diogelu data yn unol â hynny.

## **Contractio â Thrydydd Partion (paragraffau 42-43)**

42. Pan fydd yr Ymchwilydd wedi gwneud argymhelliad i gontractio ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti, bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gontractau o'r fath at ddiben yr Ymchwiliad ar yr amod:-

- bod cynnig yr Ymchwilydd yn arferol, yn briodol ac yn darparu gwerth am arian
- bod y cynnig fel arall yn gyson â rhai polisïau corfforaethol Llywodraeth Cymru y mae'r Ymchwilydd wedi'u mabwysiadu.

43. Bydd y contract yn cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru ar ran yr Ymchwilydd, ac felly polisïau caffael Llywodraeth Cymru fydd yn cael eu dilyn.



## RHESTR GOSTAU

### Amodau sy'n gymwys i ddyfarnu costau cyfreithiol yn unol â pharagraff 7

Mae'r amodau fel a ganlyn:-

1. Bydd yr Ymchwilydd ond yn argymhell dyfarnu costau cynrychiolaeth cyfreithiol person mewn perthynas â'r ymchwiliad pan fydd o'r farn ei bod yn angenrheidiol, yn deg, yn rhesymol ac yn gymesur bod dyfarniad yn cael ei wneud.
2. Bydd dyfarnu costau cyfreithiol yn ddarostyngedig i'r amod mai dim ond am waith sydd â thystiolaeth priodol ac y gellir nodi ei fod wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan osgoi dyblygu diangen a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus y gwneir taliad.
3. Y caiff costau cyfreithiol eu dyfarnu, dim ond mewn perthynas â gwaith cyfreithiol a wneir gan gynrychiolydd cyfreithiol sydd, ym marn yr Ymchwilydd, yn gweithredu fel cynrychiolydd cyfreithiol cydnabyddedig y person hwnnw mewn perthynas â'r ymchwiliad.
4. Gall yr Ymchwilydd hefyd argymhell maint a chyfansoddiad unrhyw dîm cyfreithiol a benodir gan gynrychiolydd cyfreithiol cydnabyddedig person gan gynnwys cwnsler.
5. Wrth benderfynu p'un a ddylid argymhell dyfarniad costau bydd yr Ymchwilydd yn nodi'r meysydd gwaith eang sydd i'w cwmpasu a'r cyfraddau fesul awr sy'n gymwys i bob aelod o dîm cyfreithiol cymeradwy y ceisydd yn amodol ar y cyfraddau fesul awr uchaf a nodir ym mharagraff 6 isod.
6. Rhaid i unrhyw berson sy'n gofyn i'r Ymchwilydd argymhell dyfarniad o'i gostau [cyflwyno cyflwyniadau ysgrifenedig i ategu'r rhesymau dros fodloni'r meini prawf ym mharagraff 1; maint a chyfansoddiad y tîm a gynigir, y gwaith y rhagwelir y bydd pob aelod o'r tîm yn ei wneud ynghyd â Rhestr Gostau yn nodi'r gyfradd fesul awr a'r oriau y disgwylir i bob aelod o'r tîm eu treulio ar bob cam.
7. Lle'r y gytunwyd ar ddyfarniad mewn egwyddor, rhaid i gynrychiolwyr cyfreithiol y person cyflwyno taflenni gwaith misol ac anfonebau am waith a wnaed, i'w cymeradwyo gan archwilydd annibynnol neu'r drafftaiwr costau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, a delir talu unrhyw anfoneb o'r fath yn brydlon ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.
8. Bydd y cyfraddau fesul awr uchaf am waith cyfreithiol a wneir gan aelodau o dîm cyfreithiol y ceisydd fel a ganlyn:

#### **Cwnsler Arweiniol**

P'un a yw'n aelod o'r Bar neu'n Gyfreithiwr sy'n gweithredu fel adfocad - £220.00

#### **Cwnsler leuaf**

P'un a yw'n aelod o'r Bar neu'n Gyfreithiwr sy'n gweithredu fel adfocad - £120.00

## **Cyfreithwyr**

Cyfreithwyr sydd â mwy nag wyth mlynedd o brofiad ar ôl cymhwyso - £175.00  
Cyfreithwyr a gweithredwyr cyfreithiol sydd â mwy na phedair blynedd o brofiad -  
£150.00

Gweithredwyr cyfreithiol cyfreithwyr eraill ac enillwyr ffi sydd â phrofiad cyfatebol -  
£125.00

Cyfreithwyr dan hyfforddiant, paragyfreithwyr ac enillwyr ffi eraill - £100.00

9. Y cyfraddau fesul awr uchaf am deithio ac amser aros gan aelodau tîm cyfreithiol ceisydd fydd hanner y gyfradd fesul awr uchaf sy'n gymwys i'r gwaith cyfreithiol a nodwyd ym mharagraff 6 uchod.